1 Medi 2004

WINSTON RODDICK A JOHN WALTER JONES WEDI'U PENODI FEL AELODAU AWDURDOD S4C

Mae Awdurdod S4C i gael dau Aelod newydd.

Mae Winston Roddick a John Walter Jones wedi'u penodi i Awdurdod S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y penodiadau yn parhau am bedair blynedd gan ddechrau ar 1 Medi 2004.

Manylion bywgraffiadol:

Winston Roddick CB QC

Winston Roddick yw Cwnsler Cyffredinol blaenorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

John Walter Jones OBE

Graddiodd mewn Economeg yng Nghaerdydd yn 1971. Bu'n was sifil rhwng 1971-1988 yn y Swyddfa Gymreig gan weithio ar Drafnidiaeth a Ffyrdd, Tai, Iechyd ac Addysg. Roedd yn Ysgrifennydd Preifat i dri Gweinidog ac yn Glerc Seneddol. Bu'n Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 1988 a'i ymddeoliad yn 2004. Yn Ionawr 2004, ef oedd y person cyntaf i annerch y pwyllgor ar y cyd newydd ar Ieithoedd Lleiafrifol wedi'i ffurfio rhwng Ty'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi. Mae'n aelod o Bwyllgor Llywio Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008 a Phwyllgor Cyllid a Staffio y Mudiad Ysgolion Meithrin. Roedd yn aelod o Banel Gwylwyr y DCMS ar y newid o analog i ddigidol.

Cefndir

1. Sefydlwyd S4C (Sianel Pedwar Cymru) i ddarparu gwasanaeth teledu ystod eang o safon uchel yn y Gymraeg. Mae Awdurdod S4C, fel corff rheoleiddio, yn gyfrifol am sicrhau bod S4C a S4C Digidol yn cael eu darparu fel gwasanaethau cyhoeddus a hefyd bod trefniadau rheoli effeithiol, gan gynnwys rheoli ariannol, mewn lle ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol S4C.

2. Mae S4C wedi'i hariannu drwy grant, gyda'r lefel wedi'i sefydlu yn ôl fformiwla o fewn y Ddeddf Ddarlledu 1996. Mae gan S4C drosiant blynyddol o £100 miliwn.

3. Y tâl presennol ar gyfer Aelodau Awdurdod S4C yw £8,800 y flwyddyn ar gyfer un diwrnod enwol yr wythnos.

4. Mae'r penodiadau hyn wedi'u gwneud yn unol â Chôd Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw unrhyw un o'r ddau a apwyntiwyd yn dal penodiad cyhoeddus arall.

5. Mae pob penodiad cyhoeddus wedi'i wneud yn ôl haeddiant ac nid yw gweithgaredd gwleidyddol yn chwarae unrhyw rhan yn y broses dewis. Er hynny, yn unol ag argymhellion gwreiddiol Nolan, y mae yna ofyniad ar y rheiny wedi'u hapwyntio i wneud yn gyhoeddus gweithgaredd gwleidyddol. Nid yw un o'r ddau a benodwyd wedi datgan unrhyw weithgaredd gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.